Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl: creu system newydd ac agored

## Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad cyhoeddus

Chwefror 2019

CP 30

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl: creu system newydd ac agored

## Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad cyhoeddus

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2019

CP 30

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn: paroleboardreview@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0952-4

CCS1218255870 02/19

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 3 |
| Model gweithredu arfaethedig ar gyfer y drefn ailystyried | 5 |
| Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad | 9 |
| Effaith a gweithrediad | 22 |
| Atodiad A – Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd | 24 |

## Crynodeb gweithredol

1. Yn Ebrill 2018, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar *Ailystyried Penderfyniadau'r Bwrdd Parôl: Creu System Newydd ac Agored*. Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn y cyhoedd am sgôp, cymhwysedd, meini prawf ac effeithiau posib trefn a fyddai'n arwain at ailystyried penderfyniadau parôl mewn rhai amgylchiadau. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn egluro sut y bwriadwn symud ymlaen â'r cynigion hyn. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymrodd amser i ymateb.

2. Mae'n bwysig pwysleisio bod y drefn ailystyried yn rhan o becyn ehangach o fesurau y mae'r Llywodraeth yn eu cyflwyno i wneud gwelliannau a diwygiadau i'r system barôl. Rydym wedi adolygu holl Reolau'r Bwrdd Parôl ac wedi ystyried pa sgôp sydd i wneud newidiadau eraill i'r system – yn benodol gyda golwg ar ei gwneud yn fwy tryloyw a'i gwella i ddioddefwyr. Cyhoeddir ein hadroddiad ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw heddiw hefyd, ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

3. Gyda'i gilydd, bydd yr adolygiadau gan y Llywodraeth i geisio gwneud y system barôl yn fwy tryloyw'n arwain at gyfathrebu'n well gyda dioddefwyr a gwella'r ffordd y cânt eu cynnwys drwy gydol y broses, yn sicrhau bod y system barôl yn deg a safadwy ac yn sicrhau ei bod yn gweithio mor effeithlon ac effeithiol â phosib i bawb.

4. Ar hyn o bryd, yr unig ffordd o herio penderfyniadau parôl yw drwy'r llysoedd drwy ofyn am adolygiad barnwrol. Er bod hyn yn ffordd effeithiol o graffu ar benderfyniadau, gall fod yn broses gostus a chymhleth, hir a brawychus, yn enwedig i ddioddefwyr troseddau. Roedd achos *Worboys* yn anghyffredin mewn llawer o ffyrdd ond yr hyn a wnaeth oedd dangos yn glir bod angen ffordd fwy hygyrch o adolygu penderfyniadau parôl yn yr achosion prin hynny lle gallai'r penderfyniad fod yn wallus. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn croesawu'r posibilrwydd o gael ffordd arall o adolygu penderfyniadau ac mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y dylem symud at gynnwys darpariaeth yn Rheolau'r Bwrdd Parôl i weithredu trefn ailystyried newydd.

5. Ar ôl ystyried safbwyntiau'r ymatebwyr i'r papur ymgynghori, mae'r ddogfen hon yn awr yn cyflwyno ein cynlluniau ar gyfer sut y bydd y drefn newydd yn gweithio. Ers i'r ymgynghoriad orffen ar ddiwedd Gorffennaf 2018, mae gwaith manwl a gofalus wedi'i wneud gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr i greu model o sut orau i gyflwyno trefn o ailystyried penderfyniadau. Wrth ddatblygu'r model hwn, rydym wedi ceisio creu trefn effeithiol a fyddai'n rhoi cyfle i herio penderfyniadau sy'n ymddangos i fod yn ddifrifol wallus, ond a fyddai hefyd yn gymesur ac ymarferol a heb greu oedi neu ansicrwydd diangen yn y system ar gyfer y mwyafrif llethol o achosion lle na fydd angen ailystyried y penderfyniadau.

6. Bu'n bwysig hefyd cydbwyso'r angen i gynnig ffordd i ddioddefwyr leisio eu pryderon yn erbyn y gofyniad cyfreithiol bod yn rhaid rhyddhau carcharorion unwaith y mae'r Bwrdd Parôl wedi cyfarwyddo hynny, ar ôl asesu nad oes angen mwyach eu cadw dan glo er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Credwn fod y model yn y ddogfen hon yn taro'r cydbwysedd iawn.

7. Bydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (VLO) yn chwarae rôl allweddol mewn rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr am y drefn ailystyried a sut y mae'n gweithio. Byddwn yn sicrhau bod swyddogion VLO wedi cael yr hyfforddiant, y canllawiau a bod ganddynt yr adnoddau eraill sydd eu hangen arnynt i wneud hyn. Cynigiwn y dylai dioddefwyr sy'n credu bod penderfyniad yn wallus, ac y dylid ei ailystyried, gyflwyno eu hachos i'r Ysgrifennydd Gwladol - drwy'r Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd (PPCS) yn HMPPS. Y PPCS sydd yn y sefyllfa orau i edrych ar fanylion yr achos ac asesu a ddylid gwneud cais i'r Bwrdd Parôl neu beidio.

8. Bydd ceisiadau ffurfiol i'r Bwrdd yn cael eu gwneud naill ai gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu gan y carcharor, fel y partïon yn yr achos parôl. Bydd y PPCS, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn penderfynu a oes dadl dros wneud cais ar ôl ystyried sylwadau gan y dioddefwr a gwirio'r penderfyniad am unrhyw arwydd ei fod efallai'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer ailystyried. Gall carcharorion hefyd wneud cais i ailystyried – os ydynt yn credu bod y penderfyniad i beidio eu rhyddhau'n wallus – bydd y ceisiadau hynny'n mynd yn syth i'r Bwrdd Parôl.

9. Rydym wedi penderfynu y bydd 'ffenestr gwneud cais' o hyd at 21 diwrnod calendr o'r dyddiad y bydd canlyniad y gwrandawiad parôl yn cael ei hysbysu i'r partïon. Ni fydd carcharorion fel arfer yn cael eu rhyddhau yn ystod y ffenestr hon oni bai y cadarnheir na fydd cais i ailystyried yn cael ei wneud a gellir symud ymlaen gyda'r trefniadau i ryddhau.

10. Un pryder a leisiwyd gan nifer o'r ymatebwyr oedd bod angen sicrhau bod gan unrhyw drefn newydd yr adnoddau angenrheidiol i weithio'n effeithiol. Rydym wedi asesu effaith y model arfaethedig a'r adnoddau y bydd eu hangen i'w ddarparu. Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn cynnwys amcan o'r nifer bosib o achosion ac effeithiau'r drefn ailystyried, a sut y cynigiwn y gellir darparu hyn.

11. Cytunodd llawer o'r ymatebwyr y dylid cael trothwy uchel o ran y meini prawf ar gyfer ailystyried – hynny yw, dim ond achosion lle mae'r penderfyniad yn gyfreithiol wallus a lle gallai fel arall ddenu adolygiad barnwrol. Felly ychydig iawn o achosion a fyddai'n cwrdd â'r trothwy hwn ac yn symud at y cam o fod angen eu hailystyried gan banel Bwrdd Parôl newydd. Wrth gwrs, bydd mwy o geisiadau'n cael eu cyflwyno yn y gobaith y bydd yr achos yn cael ei ailystyried, hyd yn oed os penderfynir wedyn nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Byddwn yn sicrhau bod adnoddau yn eu lle yn HMPPS a gan y Bwrdd Parôl i reoli ac ymateb yn llawn i bob un o'r ceisiadau hynny gan roi rhesymau llawn am y penderfyniadau, beth bynnag yw'r canlyniad.

12. Bydd y drefn yn cael ei chyflwyno drwy ychwanegu darpariaethau newydd i Reolau'r Bwrdd Parôl. I wneud hyn, bydd angen rhoi Offeryn Statudol gerbron y Senedd a disgwyliwn i hyn ddigwydd yn y misoedd nesaf. Yn y cyfamser, bwriadwn wneud y gwaith angenrheidiol i baratoi ar gyfer gweithredu'r drefn - gan gynnwys drwy ddatblygu gwaith papur, canllawiau a hyfforddiant newydd a rhoi'r adnoddau angenrheidiol yn eu lle.

13. Fel yr eglurwn uchod, bydd gweithredu'r drefn ailystyried hefyd yn digwydd ochr yn ochr â diwygiadau a newidiadau eraill sydd mewn golwg yn dilyn ein hadolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl.

# Model gweithredu arfaethedig ar gyfer y drefn ailystyried

14. Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd rhai agweddau allweddol ar y drefn ailystyried yn gweithio, gan gynnwys drwy roi trosolwg ar y broses a rhai o'r amserlenni sydd mewn golwg. Rhoddir esboniad o'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniadau hyn yn yr adran nesaf sy'n trafod yr ymatebion i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad.

## Pa achosion y bydd ailystyried yn berthnasol iddynt?

15. Bydd y drefn ailystyried yn berthnasol i benderfyniadau a wnaed ynghylch rhyddhau **carcharorion gyda dedfrydau amhenodol (ISP)** a charcharorion yn y carchar am **Ddedfrydau Penodol Estynedig (EDS).** Mae hyn yn cynnwys adolygu achosion troseddwyr a gafodd eu galw'n ôl i'r carchar am dorri amodau eu trwydded a lle y mae'r Bwrdd yn ystyried eu hail-ryddhau.

16. Ni fydd penderfyniadau'n ymwneud â charcharorion eraill gyda dedfrydau penodol lle mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried eu rhyddhau (er enghraifft, lle mae carcharorion gyda dedfrydau penodol wedi'u galw'n ôl am dorri amodau eu trwydded ac yn cael eu hystyried ar gyfer ail-ryddhau) yn gymwys i'w hailystyried. Ni fydd carcharorion ISP 'cyn-dariff' (nad ydynt eto'n gymwys i'w rhyddhau ond sy'n cael eu hystyried ar gyfer carchar agored) o fewn sgôp ar gyfer y broses newydd ychwaith.

## Y meini prawf

17. Bydd trothwy uchel ar gyfer derbyn ceisiadau i ailystyried, tebyg i'r **seiliau ar gyfer adolygiad barnwrol** (anghyfreithlondeb, afresymoldeb ac annhegwch gweithdrefnol).

18. Mae penderfyniadau parôl yn seiliedig ar asesu'r dystiolaeth a chrebwyll proffesiynol aelodau unigol o'r panel. Ni ddylai penderfyniad fod yn agored i'w herio dim ond oherwydd bod un ochr yn anghytuno â'r canlyniad. I gwrdd â'r trothwy ar gyfer ailystyried, bydd angen i'r penderfyniad fod yn gyfreithiol wallus mewn rhyw ffordd.

## Pwy fydd yn gallu herio penderfyniadau parôl o dan y drefn ailystyried?

19. Dim ond y partïon i'r broses barôl (h.y. y carcharor a'r Ysgrifennydd Gwladol) fydd yn gallu gwneud cais ffurfiol i'r Bwrdd Parôl i ailystyried penderfyniad, ond bydd dioddefwyr yn gallu gwneud achos dros ailystyried penderfyniad. Ar ôl ystyried nifer o opsiynau, daethom i'r casgliad mai'r opsiwn o **ddioddefwyr yn cyflwyno eu pryderon i'r Ysgrifennydd Gwladol** yw'r un gorau.

20. Yr Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd (PPCS) yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) fydd yn gweinyddu'r drefn ailystyried ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Lle mae gan ddioddefwr bryderon am benderfyniad parôl, bydd yn gofyn i'r PPCS edrych ar yr achos ac ystyried y posibilrwydd o wneud cais i ailystyried. Mae gan y PPCS fynediad at wybodaeth fwy manwl na'r dioddefwr (fel y ffeil barôl lawn, y penderfyniad llawn a mynediad hefyd at dystion carchar a phrawf); a, lle bo angen, mae cyngor cyfreithiol hefyd ar gael iddynt. Mae'r PPCS felly mewn sefyllfa dda, a hefyd gyda'r arbenigedd proffesiynol, i asesu a yw'r penderfyniad yn wallus neu beidio.

21. Am y rhesymau hyn, ein casgliad oedd y byddai hyn yn well na bod dioddefwyr yn gorfod gwneud cais uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl lle byddai angen iddynt gasglu a chyflwyno tystiolaeth a lle byddai hefyd efallai angen cynrychiolaeth gyfreithiol arnynt – gan olygu proses gostus a hir. Ni fyddai hynny'n dderbyniol nac yn ymarferol – dylid cefnogi a chynghori dioddefwyr drwy'r broses i elwa o arbenigedd ac adnoddau'r Ysgrifennydd Gwladol, yn hytrach na'u gadael i greu dadl ac achos eu hunain dros ailystyried penderfyniad.

22. Mewn ymateb i sylwadau'r dioddefwr, os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn casglu ar ôl archwilio'r achos nad oes digon o dystiolaeth neu resymau i gredu bod y trothwy ar gyfer ailystyried efallai wedi'i gwrdd, bydd y dioddefwr yn derbyn y rhesymau llawn am y penderfyniad i beidio â symud ymlaen at wneud cais i'r Bwrdd Parôl.

23. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud cais i ailystyried heb fewnbwn gan ddioddefwr. I sicrhau bod pob achos a allai gwrdd â'r trothwy ar gyfer ailystyried yn cael eu hadnabod cyn gynted â phosib a'u cyfeirio at y Bwrdd Parôl, bydd y PPCS yn sgrinio pob penderfyniad i ryddhau carcharorion ISP ac EDS ac yn chwilio am arwyddion o benderfyniad gwallus posib a allai gwrdd â'r trothwy i ailystyried.

24. Bydd carcharorion hefyd yn gallu defnyddio'r drefn ailystyried i herio penderfyniadau parôl drwy wneud cais uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl os ydynt yn credu bod penderfyniad i beidio eu rhyddhau'n gyfreithiol wallus. Byddai'r un trothwy uchel yn cael ei ddefnyddio. Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud sylw bob tro ar geisiadau gan garcharorion, ond bydd pob dioddefwr a ddewisodd dderbyn gwybodaeth o dan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr yn cael eu hysbysu pan fydd carcharor wedi gwneud cais a hefyd ynghylch penderfyniad y Bwrdd Parôl i ailystyried y penderfyniad neu beidio.

## Amserlen

25. Mae angen i'r drefn ailystyried fod yn chwim ac effeithlon i osgoi creu oedi ac ansicrwydd diangen. Mae angen iddi fod yn deg a hygyrch i ddioddefwyr gan roi cyfnod rhesymol i ystyried y canlyniad a phenderfynu a ddylid cyflwyno achos i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ailystyried. Rhaid iddi hefyd fod yn deg i garcharorion a pharchu'r gofyniad cyfreithiol bod yn rhaid rhyddhau'r carcharor yn ddi-oed unwaith y bydd y Bwrdd Parôl wedi casglu nad oes angen eu cadw dan glo er mwyn amddiffyn y cyhoedd mwyach. Mae taro'r cydbwysedd iawn ar hyn yn fater o fod yn gymesur - o ystyried mai dim ond nifer fach iawn o achosion fydd efallai'n cwrdd â'r trothwy i ailystyried, ni fyddai'n iawn gohirio rhyddhau'r mwyafrif llethol o garcharorion yn ddiangen er mwyn yr ychydig a allai gael eu hailystyried.

26. Daethom i'r casgliad, ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad i ryddhau y bydd **gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r carcharor hyd at 21 diwrnod calendr i gyflwyno cais i ailystyried i'r Bwrdd Parôl.** Bydd yr amserlen geisiadau'n cymryd gwyliau cyhoeddus i ystyriaeth. Rydym hefyd wrthi'n ystyried faint o hyblygrwydd i'w gynnig ar gyfer ceisiadau hwyr.

27. Credwn fod 'ffenestr gwneud cais' o 21 diwrnod calendr yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng rhoi cyfle teg i ddioddefwyr ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried gwneud cais i ailystyried, a disgwyliadau a hawl gyfreithiol carcharorion i gael eu rhyddhau ar drwydded yn dilyn penderfyniad gan y Bwrdd Parôl.

28. Bydd swyddogion VLO yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am y posibilrwydd o ailystyried, y meini prawf a'r amserlen, cyn gwneud penderfyniad i ryddhau. Bydd hyn yn sicrhau bod dioddefwyr yn barod ymlaen llaw ac yn gwybod beth i'w wneud pe baent yn penderfynu gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried gwneud cais i ailystyried, a pha mor gyflym y byddai angen gwneud hynny. Bydd y wybodaeth a'r cymorth yma hefyd yn bwysig i reoli disgwyliadau, drwy nodi'n glir nad yw ailystyried yn fater o herio penderfyniad y mae'r dioddefwr efallai'n anghytuno â fo ond yn berthnasol dim ond mewn achosion lle ymddengys bod gwall cyfreithiol neu weithdrefnol sylweddol wedi digwydd wrth wneud y penderfyniad.

29. Ni chaiff carcharorion eu rhyddhau dros gyfnod y 'ffenestr gwneud cais'. Fodd bynnag, bydd paratoi i ryddhau a rhoi'r trefniadau angenrheidiol yn eu lle'n parhau dros y cyfnod hwnnw fel arfer. Bydd y drefn ailystyried ond yn berthnasol i achosion ISP ac EDS ac, yn dilyn penderfyniad i ryddhau, rhaid rhoi mesurau yn eu lle i reoli'r carcharorion yn y gymuned. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, aros am wely mewn Hostel Brawf yn y Gymuned. Mae hyn yn golygu na ddylai ffenestr gwneud cais 21 diwrnod calendr, mewn gwirionedd, greu oedi diangen nac effeithio'n sylweddol ar weithrediad y broses ryddhau ar y funud neu ar yr amser a gymerir gyda'r rhan fwyaf o achosion cymwys. Bydd cynllunio i ryddhau'n digwydd fel arfer yn ystod y 'ffenestr gwneud cais' er mwyn gallu rhyddhau'r carcharor cyn gynted â phosib ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben, oni bai fod cais i ailystyried yn cael ei gyflwyno ac os felly bydd rhyddhau'r carcharor yn cael ei ohirio hyd nes y bydd y Bwrdd Parôl wedi penderfynu ar y cais.

30. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau fydd yn cael eu creu gan 'ffenestr gwneud cais' gymharol fyr, yn enwedig ar ddioddefwyr, a bwriadwn wneud y broses yn un mor ddidrafferth â phosib. Byddwn yn gweithio â'n cydweithwyr yn HMPPS i sicrhau bod gan swyddogion VLO hyfforddiant a chanllawiau effeithiol fel y medrant roi'r wybodaeth a'r cymorth gorau posib i ddioddefwyr. Mae'r Bwrdd Parôl hefyd yn gweithio i sicrhau bod crynodeb o benderfyniadau ar gael mor fuan â phosib fel bod dioddefwyr yn gallu llunio barn wybodus ynghylch a ydynt am ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried gwneud cais i ailystyried neu beidio.

## Trosolwg ar y broses

31. Gallai union fanylion y broses weithredol o ailystyried newid wrth i ni weithio gyda'n rhanddeiliaid ar baratoi i'w gweithredu, ond mae'r dyluniad sydd mewn golwg fel a ganlyn:

a) Cyn y gwrandawiad, bydd y VLO, fel rhan o egluro sut y mae'r broses barôl yn gweithio, yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau i'r dioddefwr am y drefn ailystyried - fel bod ganddynt y wybodaeth angenrheidiol am y broses a'r amserlen ymlaen llaw.

b) Bydd y Bwrdd Parôl yn anfon llythyr penderfyniad at yr Ysgrifennydd Gwladol, y Gwasanaeth Prawf, y carcharor a'u cynrychiolydd cyfreithiol o fewn 14 diwrnod calendr i'r gwrandawiad llafar – y VLO fydd yn hysbysu'r dioddefwr am y penderfyniad.

c) Bydd cyfnod o <u>21 diwrnod calendr</u> o'r dyddiad y gwneir y penderfyniad os yw'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r carcharor am gyflwyno cais i ailystyried i'r Bwrdd Parôl.

d) Yn ystod y 'ffenestr gwneud cais', bydd angen gwneud sawl peth gyda'i gilydd:
   - Bydd y VLO yn datgelu canlyniad y gwrandawiad i'r dioddefwr ac yn trafod y posibilrwydd o ofyn am ailystyried os yw'r dioddefwr yn credu bod y broses neu'r penderfyniad yn sylfaenol wallus.
   - Bydd y Bwrdd Parôl yn paratoi a datgelu crynodeb o'r penderfyniad os yw'r dioddefwr wedi gofyn am un.
   - Bydd y PPCS ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yn sgrinio pob penderfyniad i ryddhau achosion ISP ac EDS i adnabod unrhyw rai sydd efallai'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer ailystyried.

e) Rydym yn rhagweld y bydd canllawiau a thempled i ddioddefwyr eu defnyddio os ydynt am ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried gwneud cais i ailystyried, fydd yna'n cael ei gyflwyno i'r PPCS. Bydd y dioddefwr yn gallu cyflwyno'r cais yn uniongyrchol eu hunain, neu gyda chymorth eu VLO.

f) Rhaid cyflwyno ceisiadau i ailystyried i'r Bwrdd Parôl cyn diwedd y 'ffenestr gwneud cais' o 21 diwrnod calendr. Os na chyflwynir cais, rhaid rhyddhau'r carcharor fel arfer unwaith y bydd y trefniadau angenrheidiol i'w goruchwylio ar drwydded yn eu lle.

g) Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cais i ailystyried, bydd gan y carcharor gyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig cyn i'r Bwrdd wneud ei benderfyniad ffurfiol, ac yn y cyfamser bydd yn aros dan glo.

h) Ar ôl derbyn sylwadau'r carcharor, bydd y cais yn cael ei ystyried gan aelod barnwrol neu aelod achrededig o'r Bwrdd Parôl i benderfynu a ddylid ailystyried y cais.

i) Bydd y penderfyniad cychwynnol yn cael ei wneud ar sail y papurau. Ar y pwynt hwn gall y Bwrdd: a) gwrthod y cais; b) penderfynu bod angen i'r panel gwreiddiol neu banel newydd roi gwrandawiad llafar newydd i'r cais; neu c) delio gyda'r cais yn weinyddol drwy ofyn i'r panel gynhyrchu fersiwn ddiwygiedig o'r llythyr penderfyniad gwreiddiol, neu lle bo hynny'n briodol drwy gywiro'r gwall yn y penderfyniad eu hunain. Rhoddir rhesymau ym mhob achos – a bydd y rhain yn cael eu pasio i'r dioddefwr drwy'r VLO.

j) Os yw'r Aelod o'r Bwrdd Parôl sy'n ystyried y cais yn cyfarwyddo gwrandawiad llafar newydd, bydd hwn yn dilyn yr un broses â phob achos parôl arall a bydd gan y dioddefwr gyfle i gyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS) newydd neu ddiwygiedig.

32. Rhaid i garcharorion gyflwyno eu cais i ailystyried yn uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl neu drwy eu cynrychiolydd cyfreithiol. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei hysbysu am y cais ond ni fydd yn gwneud sylwadau mewn ymateb i'r cais oni bai fod y Bwrdd Parôl yn cyfarwyddo hynny. Gan ddibynnu ar faint o geisiadau a wneir gan garcharorion, a chapasiti aelodau, efallai y bydd angen i'r Bwrdd Parôl weithredu proses o hidlo gweinyddol, felly efallai na fydd pob cais gan garcharor yn cael ei weld gan aelod barnwrol neu achrededig. Bydd dioddefwyr a ddewisodd gael eu diweddaru o dan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr hefyd yn cael eu hysbysu os bydd carcharor yn gwneud cais i ailystyried, ac am ganlyniad hynny.

# Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

33. Derbyniwyd cyfanswm o 74 ymateb i'r ymgynghoriad. Rhoddir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A. Dewisodd rai ymatebwyr, gan gynnwys Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr, y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, gyhoeddi eu hymatebion i'r ymgynghoriad ar eu gwefannau.

34. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn wyth cwestiwn penodol a rhoddir crynodeb o'r ymatebion isod ynghyd â sylwadau'r Llywodraeth ar y materion oedd yn codi.

## C1. Ydych chi'n cytuno y dylai penderfyniadau lle mae'r Bwrdd Parôl yn cyfarwyddo y dylid, neu na ddylid rhyddhau carcharor, fod o fewn sgôp y drefn ailystyried sydd mewn golwg?

35. O'r 66 ymateb a fynegodd farn glir am hyn, roedd 59 (89%) yn cytuno y dylai penderfyniadau i ryddhau fod o fewn sgôp y drefn ailystyried newydd. Teimlai pump o'r ymatebion hynny, gan gynnwys Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr, y dylem fynd ymhellach a chynnwys argymhellion y Bwrdd Parôl i drosglwyddo carcharorion i garchar agored o fewn y drefn ailystyried hefyd. Roedd dau ymatebwr yn nodi barn y Bwrdd Parôl ond yn anghytuno â chynnwys argymhellion carchar agored.

36. Dim ond saith (11%) oedd yn anghytuno â'r cwestiwn ond roedd eu rhesymau'n ymwneud mwy â'r cysyniad cyfan o ailystyried yn hytrach na pha benderfyniadau a ddylai fod o fewn sgôp. Roedd eu sylwadau'n cynnwys:

- Diffyg eglurder yn y ddogfen ymgynghori o ran sut y bydd y drefn arfaethedig yn gweithio;
- Ofni y gallai sylw negyddol yn y cyfryngau ac adlach (neu'r risg o adlach) gan y cyhoedd ddylanwadu ar benderfyniadau'r Bwrdd;
- Nad oes angen ailystyried oherwydd bod yr opsiwn presennol o gael adolygiad barnwrol o benderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn ddigon;
- Dylid rhoi blaenoriaeth i ddiwygio'r Bwrdd Parôl i fod yn dribiwnlys, neu roi mwy o adnoddau i'r system bresennol.

37. Roedd wyth ymatebwr na atebodd y cwestiwn neu na wnaethant roi barn glir ar ba benderfyniadau a ddylai fod o fewn sgôp y drefn ailystyried.

### *Ymateb y Llywodraeth*

38. Roeddem yn falch o nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â chasgliad yr *Adolygiad o gyfraith, polisi a gweithdrefn yng nghyswllt penderfyniadau'r Bwrdd Parôl* bod angen trefn ailystyried ac y dylai penderfyniadau i ryddhau fod o fewn sgôp y broses newydd.

39. Mae'r Bwrdd Parôl yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am ba mor addas yw carcharorion gyda gwahanol fathau o ddedfryd i gael eu rhyddhau ar drwydded, gan gynnwys rhai gyda dedfrydau amhenodol, dedfrydau penodol cymwys am barôl (yn bennaf dedfrydau estynedig gan droseddwyr a ystyriwyd gan y llysoedd i fod yn 'beryglus') a rhai carcharorion sydd wedi eu galw'n ôl i'r carchar. Fel y nodwn yn

gynharach yn yr adroddiad hwn, daethom i'r casgliad mai dim ond penderfyniadau'n ymwneud ag ystyried pa mor addas fyddai rhyddhau carcharorion gyda dedfrydau amhenodol a Dedfrydau Penodol Estynedig ar drwydded fydd o fewn sgôp y drefn ailystyried.

40. Mae dau reswm yn bennaf am hyn: (a) mae achosion ISP ac EDS yn fwy tebygol o gynhyrchu'r math o benderfyniadau cymhleth a dadleuol a fyddai'n elwa o'r opsiwn i ailystyried, a (b) yn dilyn penderfyniad i ryddhau yn yr achosion hyn, mae fel arfer yn cymryd wythnosau lawer i wneud y trefniadau angenrheidiol cyn y gellir rhyddhau'r carcharorion mewn gwirionedd. Felly ni fydd cyflwyno proses ailystyried yn yr achosion hyn yn achosi oedi anghymesur cyn rhyddhau. Gyda mathau eraill o benderfyniadau parôl, fel gyda dedfrydau penodol galw'n ôl i garchar, mae'r broses ryddhau'n llawer cynt unwaith i'r Bwrdd Parôl wneud ei benderfyniad felly byddai'r effaith anfanteisiol (e.e. oedi cyn rhyddhau) yn llawer mwy.

41. Bydd carcharorion gyda dedfrydau amhenodol, lle mae'r Bwrdd Parôl yn gwrthod eu rhyddhau'n uniongyrchol ond yn argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylid eu trosglwyddo i garchar agored, yn gallu herio'r penderfyniadau hyn o dan delerau'r drefn ailystyried. <u>Nid yw'r</u> drefn ar gael os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn anghytuno ag argymhelliad y Bwrdd Parôl i drosglwyddo i garchar agored. Nid yw cyngor y Bwrdd Parôl ar drosglwyddo carcharorion i garchar agored yn orfodol lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cwestiwn, felly bydd yn gallu penderfynu peidio â derbyn argymhelliad y Bwrdd heb droi at y drefn ailystyried. Gall hefyd benderfynu trosglwyddo carcharor i garchar agored heb dderbyn argymhelliad gan y Bwrdd Parôl.

42. Bydd y panel mewn gwrandawiad ailystyried yn gallu ystyried o'r newydd a fyddai'n addas trosglwyddo carcharor i garchar agored yn ystod unrhyw wrandawiad ailystyried. Nid yw hyn yn berthnasol i achosion EDS oherwydd HMPPS sy'n penderfynu a ydynt yn addas ar gyfer carchar agored, heb fewnbwn gan y Bwrdd Parôl.

43. Lleisiodd ymatebwyr a anghytunai â'r cwestiwn bryderon am dryloywder ac adnoddau a cheisiwn ateb y pryderon hyn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## C2. Pa unigolion neu grwpiau a ddylai fod yn gallu gwneud cais i ailystyried penderfyniad?

44. Gwnaed amryw byd o awgrymiadau ynghylch pa unigolion neu grwpiau a ddylai fod yn gallu gwneud cais, ond roedd yr ymatebion yn tueddu i ddisgyn i ddau wersyll: a) y cyhoedd yn gyffredinol, neu b) dim ond partïon y gwrandawiad llafar.

45. Teimlai bron i bob un o'r 28 o ymatebwyr oedd â gwybodaeth broffesiynol neu brofiad o barôl ('y grŵp arbenigol') bod yn rhaid cyfyngu ceisiadau i ailystyried i bartïon y gwrandawiad. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys y Bwrdd Parôl, y Comisiynydd Dioddefwyr a chynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol.

46. Roedd y 'grŵp arbenigol' hwn yn cydnabod bod angen ffordd o wneud cais ar ddioddefwyr a hefyd o blaid, yn enwedig y Comisiynydd Dioddefwyr, bod dioddefwyr yn gwneud eu ceisiadau drwy'r Ysgrifennydd Gwladol yn hytrach na'n uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl. Gwnaed cymhariaeth gan nifer o'r ymatebwyr â'r cynllun Dedfrydau Rhy Drugarog (ULS) lle mae Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn ystyried ceisiadau gan y

cyhoedd i benderfynu pa rai sy'n cwrdd â'r trothwy ar gyfer eu trosglwyddo i'r Llys Apêl.

47. Teimlai un ymatebwr yn y grŵp hwn na ddylai fod dioddefwyr yn gallu gwneud cais a theimlai un arall y dylid ei gyfyngu dim ond i ddioddefwyr sy'n derbyn gwybodaeth o dan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.

48. O ran pwy arall a allai wneud cais, roedd y grŵp arbenigol at ei gilydd o blaid y cysyniad 'arferol' a ddefnyddir mewn adolygiadau barnwrol sydd ond yn gadael i rywun herio penderfyniad os gellir dangos digon o gysylltiad gyda, a niwed o'r penderfyniad. Roeddent yn erbyn y syniad o gael proses oedd yn agored i bawb, yn bennaf oherwydd y risg o greu mynydd anghymesur ac afreolus o geisiadau. Roedd pryderon hefyd am y risg bosib y gallai pwysau gan y cyhoedd neu'r cyfryngau – na fyddai ganddynt wybodaeth fanwl am yr amgylchiadau unigol na budd yn yr achos – gael gormod o ddylanwad ar ganlyniadau parôl.

49. O'r 46 o ymatebwyr oedd o blaid proses a fyddai'n fwy agored i eraill, gwnaed amryw o awgrymiadau ynghylch pa grwpiau a ddylai fod yn gallu gwneud cais i ailystyried penderfyniad parôl. Fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr awgrymu'r heddlu, staff carchar / prawf, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Roedd tua dau o bob tri o'r grŵp eisiau rhoi'r hawl i bawb wneud cais, a'r gweddill yn awgrymu rhai cyfyngiadau. Er enghraifft, roedd rhai eisiau cynllun i ddioddefwyr yn unig ac eraill yn cytuno â barn y grŵp arbenigol na ddylai fod gan y cyhoedd yn gyffredinol na'r cyfryngau hawl i wneud cais.

### *Ymateb y Llywodraeth*

50. Daeth y Llywodraeth i'r casgliad y dylid cyfyngu ceisiadau ffurfiol i benderfyniad gael ei ailystyried i bartïon y gwrandawiad, h.y. y carcharor a'r Ysgrifennydd Gwladol - gyda dioddefwyr yn gallu cyflwyno eu sylwadau a'u dadl dros ailystyried drwy'r Ysgrifennydd Gwladol.

51. Rydym yn cydnabod bod gan y cyhoedd ddiddordeb mawr mewn penderfyniadau parôl. Mae rhanddeiliaid eraill hefyd y tu allan i'r broses barôl sydd â diddordeb cyfreithlon mewn penderfyniadau parôl ac efallai gyda phryderon diffuant am ryddhau rhai troseddwyr. Rydym wedi ystyried cryn dipyn ar y mater ond wedi dod i'r casgliad y byddai trefn a fyddai'n caniatáu ceisiadau gan unrhyw un heblaw partïon y gwrandawiad yn anymarferol oherwydd y mynydd o geisiadau y gallai hynny ei gynhyrchu. Byddai hefyd yn anhylaw oherwydd byddai angen gwneud cais yn gyflym ac ym meddiant digon o wybodaeth am yr achos i gyflwyno dadl yn egluro pam fod y penderfyniad neu'r broses yn gyfreithiol wallus. O ystyried mai pwrpas y drefn ailystyried yn bennaf yw cael opsiwn arall yn lle adolygiad barnwrol ar gyfer herio penderfyniadau anghyfreithlon neu wallus, credwn y dylai unrhyw her, fel gydag adolygiadau barnwrol, ddod gan rai sydd â chysylltiad gyda, a budd yn yr achos yn hytrach na chan y cyhoedd yn gyffredinol.

52. Roedd hefyd angen ystyried yr hyn sy'n bosib o fewn Rheolau'r Bwrdd Parôl fel y maen nhw, sef yr unig gyfrwng sydd ar gael i ddarparu ar gyfer ailystyried heb gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ein cyfyngu i newid gweithdrefnau presennol y Bwrdd Parôl oherwydd nid yw'r Rheolau'n caniatáu i ni greu trefn apelio gwbl newydd a chyffredinol o herio penderfyniadau'r Bwrdd Parôl.

53. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, roedd y Comisiynydd Dioddefwyr, y Farwnes Newlove, yn cydnabod rhai o'r anawsterau ymarferol a fyddai'n cael eu creu pe bai'n rhaid i ddioddefwyr wneud cais i ailystyried yn uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl. Roedd o blaid proses lle gallai dioddefwyr wneud cais drwy'r Ysgrifennydd Gwladol a chytunwn mai hyn sy'n cynnig yr ateb gorau.

54. Mae'r model a ddyluniwyd gennym yn golygu y bydd gan ddioddefwyr ffordd o leisio eu pryderon am benderfyniadau parôl unigol heb orfod troi at adolygiad barnwrol costus. Bydd sianelu llais y dioddefwr drwy'r Ysgrifennydd Gwladol yn golygu y byddai modd rhoi'r cais at ei gilydd yn fwy cynhwysfawr drwy elwa o'r adnoddau a fyddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, darllen y ffeil barôl lawn a siarad yn uniongyrchol â'r staff carchar a phrawf sy'n gyfrifol am y carcharor, ac sy'n rhan o'r broses barôl.

55. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd hefyd yn y sefyllfa orau, yn bennaf drwy swyddogion VLO, i roi'r cymorth, y cyngor a'r adborth sydd ei angen ar ddioddefwyr i siarad drwy'r broses ailystyried a'u helpu i ddeall pethau.

56. Teimlai'r Comisiynydd Dioddefwyr y dylid anfon pob cais i ailystyried gan ddioddefwr ymlaen i'r Bwrdd Parôl bob tro. Penderfynwyd peidio â mabwysiadu'r argymhelliad hwn yn llawn oherwydd teimlwn fel parti yn y broses barôl y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gadw rhywfaint o ddisgresiwn ynghylch gadael i benderfyniad gael ei herio neu beidio. Bydd hyn hefyd yn helpu i gadw'r drefn newydd yn hylaw a chymesur.

57. Trafodir y meini prawf ar gyfer ailystyried yn fwy manwl isod ond bydd y trothwy'n uchel a bydd angen i benderfyniad fod yn gyfreithiol wallus. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol mewn sefyllfa dda i asesu a allai fod dadl dros ailystyried penderfyniad a chredwn na ddylai gael ei gymell i gyflwyno pob cais gan ddioddefwr i'r Bwrdd Parôl os aseswyd y cais ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth na seiliau dros gredu bod y trothwy wedi'i gwrdd.

58. Byddwn yn rhoi canllawiau clir a chynhwysfawr i ddioddefwyr a swyddogion VLO ar y drefn ailystyried i egluro'r meini prawf gan roi enghreifftiau o'r mathau o amgylchiadau lle byddai cyfiawnhad dros wneud cais i'r Bwrdd Parôl.

59. Fodd bynnag, mae'n anochel ambell waith y bydd dioddefwyr yn codi pryderon sy'n syrthio'n sylweddol brin o'r trothwy ac o ganlyniad na fyddai ganddynt unrhyw siawns realistig o herio penderfyniad y Bwrdd Parôl yn llwyddiannus. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwrthod cyflwyno cais i'r Bwrdd Parôl ond yn rhoi rhesymau manwl i'r dioddefwr am ei benderfyniad. Ni chredwn y byddai'n ymarferol nac yn briodol bod pob cais i ailystyried yn cael ei roi gerbron panel y Bwrdd Parôl am benderfyniad. Bydd y broses hon hefyd yn lleihau'r cyfnod o ansicrwydd i bawb dan sylw ac yn cynorthwyo'r Bwrdd i ganolbwyntio ei adnoddau barnwrol ar y nifer fach o benderfyniadau a allai fod â gwallau difrifol ac sydd angen ail-edrych arnynt.

60. Nodwn farn llawer o'r ymatebwyr y dylai'r drefn ailystyried fod yn agored i geisiadau ar lefel ehangach, gan gynnwys gan gyrff fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, ac awdurdodau lleol. Yn ymarferol, o dan y fframwaith sydd gennym mewn golwg, bydd yn bosib i unrhyw un ddeisebu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo ystyried gwneud cais. Fodd bynnag, penderfynwyd peidio â chreu unrhyw ddarpariaethau newydd penodol i hwyluso hyn ar hyn o bryd oherwydd byddai rhwystrau ymarferol i'w goresgyn a galw am lawer

mwy o adnoddau – ac ni theimlwn y byddai hyn yn gymesur nac ychwaith yn cyfiawnhau'r oedi y byddai'n ei achosi.

61. Rhoddir manylion am amseriad a phenderfyniadau ynghylch adolygiadau parôl i bartïon y gwrandawiad yn unig – ni chyhoeddir hwynt fel arall (er y rhoddir y wybodaeth i ddioddefwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr). Er mwyn hwyluso ceisiadau gan rai heblaw'r Ysgrifennydd Gwladol, y carcharor neu'r dioddefwr, byddai angen i ni rannu gwybodaeth am benderfyniadau parôl yn ehangach, ac yn ddigon manwl i greu a rhoi dadl ystyrlon gerbron. Ni chredwn felly y byddai'n rhesymol nac yn gymesur, yn enwedig o gofio'r trothwy uchel y byddai angen ei gwrdd ar gyfer ailystyried.

## C3. Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw drefn ailystyried a gyflwynir ystyried seiliau tebyg i'r rhai a ddefnyddir gydag adolygiad barnwrol?

## C4. Ydych chi'n cytuno bod y seiliau a ddefnyddir gan Dribiwnlys Haen Gyntaf yn cynnig paramedrau defnyddiol ar gyfer seiliau trefn ailystyried?

62. Mae'r ddau gwestiwn yma wedi eu crynhoi gyda'i gilydd oherwydd bod llawer o'r ymatebwyr wedi rhoi un ateb ar gyfer y ddau gwestiwn. Ni wnaeth 13 o'r ymatebwyr ateb y cwestiynau hyn neu nid oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth i roi barn.

63. Roedd y rhan fwyaf a atebodd (56 ymatebwr) yn fodlon â'r meini prawf adolygiad barnwrol a / neu'r tribiwnlys. At ei gilydd, roeddent yn teimlo eu bod yn briodol a theg ac yn lleihau unrhyw geisiadau heb haeddiant. Dim ond tri a ddywedodd eu bod yn anfodlon naill ai â'r seiliau ar gyfer adolygiad barnwrol neu'r tribiwnlys haen gyntaf, a'r unig sylw oedd y dylai'r meini prawf fod mor eang â phosib. Teimlai eraill fod y naill a'r llall o'r meini prawf yn rhy debyg i ddewis rhyngddynt.

64. Soniwyd am opsiynau pellach yng nghorff y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys cyflwyno system seiliedig ar haeddiant lle byddai'n bosib herio penderfyniadau ar sail anghytuno â'r canlyniad; a'r posibilrwydd o ailystyried rhai penderfyniadau'n awtomatig. Ychydig iawn o gefnogaeth oedd i'r naill awgrym na'r llall gan yr ymatebwyr.

### *Ymateb y Llywodraeth*

65. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r ymatebwyr sydd o blaid cael trothwy uchel ar gyfer ceisiadau i ailystyried, tebyg i'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer adolygiad barnwrol neu gan y tribiwnlys haen gyntaf.

66. Sylweddolwn na fydd hyn yn mynd mor bell ag y byddai dioddefwyr yn ei ddymuno ond mae dadleuon cryf yn erbyn mynd ymhellach ar hyn o bryd. Nid oedd dim neu fawr ddim cefnogaeth i system ar sail haeddiant ymhlith yr ymatebwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'r syniad o feini prawf tebyg i rai adolygiad barnwrol a oedd yn eu barn hwy'n briodol a theg. Gallai system ar sail haeddiant greu mynydd anhylaw o geisiadau a fyddai'n achosi oedi pellach ar draws y broses barôl pe bai'n rhaid i'r Bwrdd Parôl neilltuo adnoddau i gyfiawnhau nifer fawr o'i benderfyniadau, a'r mwyafrif llethol o'r rheini'n rhai cadarn.

67. Byddai rheoli effaith bosib hyn yn gofyn am lefel o adnoddau ychwanegol ar gyfer y Bwrdd Parôl a HMPPS na fyddai'n rhesymol nac yn gymesur ym marn y Llywodraeth.

Ar wahân i'r galw am adnoddau, cyfyngir ni hefyd gan y fframwaith deddfwriaethol presennol. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno system apelio ar sail haeddiant ac ni fyddai hynny'n ddichonadwy yn y tymor byr i ganolig na'n bosib drwy newid Rheolau'r Bwrdd Parôl yn unig.

68. Roeddem yn ymwybodol o bryderon nifer o'r ymatebwyr a ddywedodd fod yn rhaid i'r drefn ailystyried fod yn hylaw a chymesur; na ddylai greu oedi nac ansicrwydd diangen i'r system (sy'n beth drwg i ddioddefwyr, carcharorion ac i fuddiannau cyfiawnder); ac na ddylai roi gormod o faich ar adnoddau prin a heb gyfiawnhad. Roedd y rhesymau hyn i gyd yn cynnig bod angen trothwy uchel ar gyfer ailystyried a bod angen cyfyngu ceisiadau i benderfyniadau difrifol wallus yn unig; yn lle caniatáu ailystyried penderfyniadau oherwydd bod pobl yn anghytuno â'r canlyniad.

### C5. Sut y gallwn gynyddu mynediad y cyhoedd at wrandawiadau ailystyried mewn rhai amgylchiadau a rhoi mwy o wybodaeth am benderfyniadau ailystyried ond gan hefyd sicrhau bod y broses yn aros yn gadarn ac yn amddiffyn dioddefwyr?

### C6. Beth yn fwy y gallwn ei wneud i sicrhau bod y broses ailystyried mor agored a thryloyw â phosib?

69. Gellir crynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau hyn hefyd am yr un rhesymau ag ar gyfer cwestiynau 3 a 4 uchod.

70. Roedd 13 sylw o blaid caniatáu mynediad i'r cyhoedd at wrandawiadau ond teimlai 18 o'r ymatebwyr y dylid cyfyngu mynediad i bartïon budd yn unig. Dywedodd wyth ymatebwr y byddai caniatáu mynediad i'r cyhoedd hefyd yn ffordd o wella tryloywder. Roedd y rhai a oedd yn erbyn rhoi mynediad i'r cyhoedd yn rhannu llawer o'r un pryderon, gan gynnwys:

- Yr effaith bosib y gallai gwrandawiad cyhoeddus ei gael ar sicrhau tystiolaeth agored gan dystion, a oedd yn hanfodol i gyrraedd penderfyniad gwybodus.
- Risg i'r siawns y gallai'r carcharor ail-setlo pe bai'n cael ei ryddhau, gan felly danseilio pwrpas y gwrandawiad o benderfynu a fyddai modd rheoli'r carcharor yn ddiogel ac effeithiol ar drwydded yn y gymuned.
- Cydnabod y goblygiadau ymarferol ac adnoddau o gynnal gwrandawiadau cyhoeddus a fyddai'n creu costau ac oedi pellach i weinyddu cyfiawnder.
- Bod angen preifatrwydd wrth ymdrin â gwybodaeth sensitif am garcharorion a dioddefwyr.

71. Roedd rhai a oedd o blaid gwrandawiadau cyhoeddus hefyd yn cydnabod rhai o'r risgiau posib hyn ac y byddai angen cael gwrandawiadau caeedig lle bo angen.

72. Teimlai 30 o ymatebwyr y byddai modd gwneud y broses yn fwy agored a thryloyw drwy ryddhau mwy o wybodaeth am wrandawiadau parôl a'u canlyniadau i'r cyhoedd. Er enghraifft drwy gyhoeddi gwybodaeth ar-lein fel enw'r carcharor, dyddiad y gwrandawiad, y canlyniad neu grynodeb o'r penderfyniad. Yn fwy cyffredinol, teimlai'r ymatebwyr fod angen gwybodaeth gliriach a mwy cynhwysfawr am y broses barôl i wella dealltwriaeth pawb ohoni. Awgrymodd un ymatebwr y dylid creu 'compact parôl' a fyddai ar gael i'r cyhoedd fel bod pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl o'r broses barôl.

73. Roedd cefnogaeth i wneud y Bwrdd Parôl yn fwy annibynnol drwy ei ddiwygio a'i droi'n dribiwnlys parôl. Awgrymodd tri ymatebwr y dylid cyflwyno rhyw fath o graffu annibynnol, fel arsylwyr ar gyfer gwrandawiadau, ond ychydig iawn o gefnogaeth oedd i fesurau fel enwi aelodau'r Bwrdd Parôl neu dystion gwrandawiadau llafar, yn bennaf oherwydd pryderon am ddiogelwch a gallu siarad yn agored.

74. Roedd eraill yn cwestiynu a oedd angen trefn newydd o gwbl drwy gyfeirio at y ffaith bod adolygiad barnwrol eisoes ar gael ac yn bodloni'r gofyniad o gael system agored, dryloyw a chadarn i herio penderfyniadau parôl.

### *Ymateb y Llywodraeth*

75. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i sicrhau bod y broses ailystyried – yn wir y broses barôl yn gyffredinol – mor agored a thryloyw â phosib. Mae'r adroddiad ar ganlyniad yr Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl yn cynnwys nifer o fesurau a ddyfeisiwyd i wneud y broses yn fwy tryloyw ac y bwriadwn eu gweithredu. Mae gan gadeiryddion paneli Bwrdd Parôl eisoes bŵer i dderbyn arsylwyr i wrandawiadau ond penderfynwyd peidio â chyflwyno unrhyw fesurau newydd ehangach i hwyluso gwrandawiadau cyhoeddus. Penderfynwyd hefyd yn erbyn enwi cyfranogwyr mewn gwrandawiad yn gyhoeddus. Cytunwn â'r mwyafrif o ymatebwyr y gallai mesurau o'r fath danseilio didwylledd y broses a rhoi gormod o bethau yn y fantol.

76. Ond cytunwn ei bod yn bwysig i'r drefn neu'r broses newydd fod yn agored a thryloyw fel arall - yn enwedig drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a chynhwysfawr am y broses ar gael i'r cyhoedd; sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cyngor a chymorth; a thrwy wneud yn siŵr bod pob penderfyniad yn cael ei egluro'n llawn gan roi rhesymau. Bydd y penderfyniadau'n rhai i'w datgelu ac yn cynnwys enw'r aelod barnwrol neu achrededig ar y Bwrdd Parôl a benderfynodd yr achos.

77. Lle mae cais i ailystyried yn arwain at wrandawiad llafar newydd, ymdrinnir â'r cais yn yr un ffordd â phob gwrandawiad parôl arall. Bydd dioddefwyr yn gallu cyflwyno eu Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS), neu un wedi'i ddiweddaru – a derbyn crynodeb o'r penderfyniad os ydynt yn gofyn.

78. Rhannwn bryderon yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai rhoi mynediad i'r cyhoedd amharu ar hyder tystion ac aelodau o'r panel i fod mor agored a di-ddal-yn-ôl ag y mae gwrandawiad caeedig yn ei ganiatáu. Mae gwrandawiad hefyd yn cynnwys trafodaeth fanwl am iechyd corfforol ac iechyd meddwl carcharor, a chynlluniau ar gyfer eu rhyddhau, gan gynnwys trefniadau byw, cyflogaeth a gofal meddygol. Byddai datgelu'r wybodaeth yma i'r cyhoedd yn codi pryderon diogelwch a phreifatrwydd i garcharorion a'u teuluoedd a gallai danseilio eu gallu i ail-setlo'n llwyddiannus a diogel. Ar ben hynny, os yw dioddefwyr hefyd yn cymryd rhan drwy roi datganiad VPS i'r gwrandawiad, efallai na fyddent eisiau i'w manylion personol a'u pryderon fod ar gael i'r cyhoedd.

79. Mae cryn rwystrau ymarferol hefyd i gynnal gwrandawiadau cyhoeddus. Fel arfer cynhelir gwrandawiadau parôl mewn carchardai ac nid oes gan lawer ohonynt y cyfleusterau i dderbyn na rheoli presenoldeb y cyhoedd yn ddiogel a byddai darparu'r cyfleusterau hyn ar draws yr ystad garchardai'n gofyn am fuddsoddiad helaeth iawn. Byddai cynnal gwrandawiadau mewn lleoliadau mwy addas y tu allan i'r carchar (fel yn y llysoedd) hefyd yn creu galw sylweddol o ran bod angen mynediad i'r llysoedd yn ddigon aml i gynnal yr holl wrandawiadau parôl; heb sôn am y gost a'r trafferthion logistaidd o gludo carcharorion i ac o'r lleoliadau hyn. Hefyd, byddai peryglon

diogelwch real iawn yn gysylltiedig â chludo carcharorion pe bai'r dyddiadau, y cyrchfannau a'r bras amseroedd yn wybodaeth gyhoeddus ymlaen llaw. Rydym hefyd yn fodlon gyda'r drefn bresennol lle gall Cadeirydd Panel ganiatáu mynediad i unrhyw un sydd am fynychu gwrandawiad.

80. Mae'r Llywodraeth yn nodi a chytuno â'r sylwadau sy'n awgrymu bod angen canllawiau clir a chynhwysfawr. Byddwn yn ystyried hyn wrth weithredu'r drefn ailystyried newydd ac yn ceisio darparu cyngor a gwybodaeth drylwyr am bob agwedd ar y broses. Rydym yn arbennig o ymwybodol bod angen gwneud y broses mor hygyrch â phosib i ddioddefwyr a bydd canllawiau a chymorth penodol ar eu cyfer hwy.

81. Rydym hefyd yn cymryd camau i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses barôl drwy greu Protocol Gweithredol rhwng y Bwrdd Parôl a HMPPS. Ar wahân, bydd y Bwrdd Parôl hefyd yn cynhyrchu canllawiau Ymarfer Safonol i gyd-fynd â'r Rheolau. Bydd y ddwy ddogfen ar gael i'r cyhoedd. Rhoddir mwy o fanylion am hyn yn yr adroddiad ar yr adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl.

## C7. Beth yn eich barn chi fyddai effaith pob un o'r opsiynau diwygio arfaethedig ar gydraddoldeb yn achos unigolion gyda nodweddion gwarchodedig? Rhowch resymau.

82. O ganlyniad i'r atebion a gawsom i'r cwestiwn hwn, rydym wedi diweddaru ein hystyriaethau cydraddoldeb[1]. Bydd asesiad cydraddoldeb pellach yn cael ei gyflawni ochr yn ochr ag unrhyw newid i Reolau'r Bwrdd Parôl.

***Dyletswyddau cydraddoldeb*** O dan Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 (“y Ddeddf Cydraddoldeb”), rhaid i Weinidogion a’r Adran, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi ‘sylw dyledus’ i’r angen i: (1) ddileu gwahaniaethu, aflonyddwch, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb; (2) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, a rhai nad ydynt) a; (3) meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, a rhai nad ydynt).

84. Dylid ystyried talu ‘sylw dyledus’ yn erbyn y naw “nodwedd warchodedig” o dan y Ddeddf Cydraddoldeb – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

### *Crynodeb*

85. Cafwyd 36 ymateb i'r cwestiwn hwn gyda rhai'n gwneud sylwadau cyffredinol nad oedd yn ymdrin â'r effaith bosib ar unigolion gyda nodweddion gwarchodedig.

86. O'r rhai oedd yn ymdrin â materion cydraddoldeb, roedd yr adborth yn cynnwys:

- Angen sicrhau bod aelodau'r Bwrdd Parôl wedi derbyn hyfforddiant digonol mewn materion cydraddoldeb.

---

[1] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reconsideration-of-parole-board-decisions/supporting_documents/PBEqualityStatementConsultation%20Document%20FINAL.pdf

- Angen gwneud mwy o ymchwil i benderfyniadau'r Bwrdd Parôl o safbwynt cydraddoldeb.
- Rhaid i wybodaeth gael ei chyflwyno a bod ar gael mewn gwahanol fformatau (e.e. gwahanol ieithoedd a braille).
- Gallai mwy o fynediad i'r cyhoedd at y broses barôl ddatgelu pethau sensitif am garcharorion (iechyd corfforol / meddwl, hanes o drawma, rhywioldeb ac yn y blaen). Gellid defnyddio hyn yn eu herbyn a gallai amharu ar eu siawns o ail-setlo ac adsefydlu.
- Gall mynediad i bobl anabl mewn carchardai fod yn wael gan gymell dioddefwyr i beidio â chymryd rhan, e.e. dim dolenni clyw mewn gwrandawiadau.
- Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod yr ymgynghoriad yn cyfeirio at ragfarn hiliol mewn rhai penderfyniadau parôl. Yn eu barn hwy, ni fydd y drefn ailystyried newydd yn ateb y broblem hon.
- Dylem edrych yn ofalus ar yr effaith bosib ar garcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl, a hefyd ar ferched yn y carchar.
- Rhaid ystyried, yn arbennig, a oes angen rhoi mynediad i'r cyhoedd lle mae'r dioddefwr a / neu'r carcharor o dan 18 oed.

### *Ymateb y Llywodraeth*

87. Credwn nad yw mabwysiadu trefn ailystyried yn gwahaniaethu'n uniongyrchol oherwydd byddai'r newidiadau o'r polisi hwn yn cael eu cymhwyso'r un fath i bawb yn y broses barôl. Ni chredwn fod hyn yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd nodweddion gwarchodedig.

88. Fodd bynnag, gwyddom fod rhai grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig wedi eu gorgynrychioli yn y boblogaeth garchardai a hefyd ymhlith rhai sy'n cael eu lladd ac sy'n dioddef troseddau treisgar neu rywiol. O'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, mae carcharorion yn fwy tebygol o fod yn wryw, rhwng 18 a 39 oed, gydag anabledd, o darddiad ethnig Du neu Ddu Prydeinig, o grŵp ethnig cymysg, neu'n Fwslim.[2] Mae'n debygol hefyd fod rhai sy'n adnabod eu hunain fel Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol neu Arall (LGB) wedi eu gorgynrychioli yn y boblogaeth garchardai o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.[3]

---

[2] Gweler ddata ar y Boblogaeth Garchardai ar 30 Mehefin 2018: *Offender Management statistics quarterly: April to June 2018*, o'r wefan https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-april-to-june-2018. I rai gyda dedfryd am oes neu ddedfryd o garchar er mwyn amddiffyn y cyhoedd, mae dynion wedi eu gor-gynrychioli ychydig o'i gymharu â'r boblogaeth garchardai'n gyffredinol (96.62% o garcharorion oes ac IPP o'i gymharu â 95.39% o'r boblogaeth garchardai'n gyffredinol, gweler ibid. tablau 1.1 a 1.9a.) Mae'r gor-gynrychiolaeth yma'n gyson ag ystadegau o chwarteri blaenorol. Nid oes gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig eraill ar gael ar gyfer y grŵp hwn o garcharorion.

[3] Dengys yr astudiaeth ddiweddaraf fod 2.6% o garcharorion yn adnabod eu hunain fel LGB. Mae hyn yn debygol o fod yn cael ei dan-adrodd. Ni chasglwyd data ar dueddiad rhywiol yng nghyfrifiad 2011. Yn ôl yr Ystadegau Swyddogol Arbrofol diweddaraf, mae 2% o'r boblogaeth gyffredinol yn LGB. Felly mae'n debyg bod rhai sy'n adnabod eu hunain fel LGB wedi eu gor-gynrychioli o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Gweler yr adroddiad *National Offender Management Service Annual Offender Equalities Report, 2016/17*, 12, o'r wefan https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/

89. Er nad oes data uniongyrchol ar ddioddefwyr troseddau lle mae'r troseddwr a gyflawnodd drosedd yn eu herbyn yn mynd drwy'r broses barôl, *mae* data ar gael ar y nodweddion sy'n gysylltiedig â dioddefwyr lladdiad neu droseddau treisgar neu rywiol. O'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, mae dioddefwyr lladdiad yn fwy tebygol o fod yn wryw.[4] Mae dioddefwyr bron pob math o ymosodiad rhywiol yn llawer mwy tebygol o fod yn ferched.[5] Mae dioddefwyr bron pob math o drais yn y cartref hefyd yn llawer mwy tebygol o fod yn ferched.[6] Mae dioddefwyr bron pob math arall o drosedd treisgar yn llawer mwy tebygol o fod yn ddynion rhwng 16 a 24 oed, neu'n sengl.[7]

90. Oherwydd eu bod wedi eu gorgynrychioli, rydym yn cydnabod y bydd unrhyw effeithiau da o gyflwyno trefn ailystyried yn fwy manteisiol i'r grwpiau a restrir uchod nag i'r boblogaeth yn gyffredinol. Felly hefyd, bydd unrhyw effeithiau andwyol yn gysylltiedig â'r drefn ailystyried yn fwy anfanteisiol i'r grwpiau a restrir uchod nag i'r boblogaeth yn gyffredinol.

91. Nod y drefn ailystyried yw bod o fantais i ddioddefwyr drwy wella eu mynediad at gyfiawnder a rhoi sicrwydd pellach iddynt fod trefn neu broses yn ei lle i ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn haws. Disgwylir y bydd y newidiadau sydd mewn golwg hefyd yn gwella mynediad carcharorion at gyfiawnder fel rhan o broses decach a haws ei defnyddio o geisio herio penderfyniad Bwrdd Parôl na ddylid eu rhyddhau. Ymhlith yr effeithiau anfanteisiol posib yw oedi ac ansicrwydd diangen i ddioddefwyr a charcharorion fel ei gilydd, gan gynnwys mwy o amser dan glo. Rydym wedi egluro uchod sut y bwriadwn liniaru'r risgiau hyn ac osgoi unrhyw effeithiau anfanteisiol yn codi o gyflwyno'r drefn hon.

92. Mae peth tystiolaeth hefyd fod troseddwyr gwyn yn fwy tebygol o gael eu cymeradwyo i'w rhyddhau na rhai o unrhyw gefndir ethnig arall. Mae hyn yn wir mewn achosion adolygu a gwrandawiadau galw'n ôl.[8] Os bydd y tebygolrwydd yma'n parhau gydag

---

663390/noms-offender-equalities-annual-report-2016-2017.pdf a *Sexual Identity: UK, 2016,* o'r wefan https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualidentityuk/2016

4 Gweler *Homicide in England and Wales: year ending March 2017*, §4, o'r wefan https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/yearendingmarch2017

5 Gweler *Sexual offences in England and Wales: year ending March 2017*, § 6, o'r wefan https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/sexualoffencesinenglandandwales/yearendingmarch2017

6 Gweler *Domestic abuse: findings from the Crime Survey for England and Wales: year ending March 2017*, §5, o'r wefan https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusefindingsfromthecrimesurveyforenglandandwales/yearendingmarch2017

7 Gweler *The nature of violent crime in England and Wales: year ending March 2017*, §8, o'r wefan https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/thenatureofviolentcrimeinenglandandwales/yearendingmarch2017

8 Ar gyfer achosion a adolygwyd yn 2016, cafodd 42% o garcharorion Gwyn eu rhyddhau o'r carchar, gyda'r canrannau rhyddhau ar gyfer grwpiau ethnig eraill yn amrywio rhwng 36% a 39%. Ar gyfer gwrandawiadau galw'n ôl i garchar, cafodd 59% o garcharorion Gwyn eu rhyddhau, gyda'r canrannau rhyddhau ar gyfer grwpiau ethnig eraill yn amrywio rhwng 49% a 58%. Gweler *Statistics on Race and the Criminal Justice System 2016: A Ministry of Justice Publication under Section 95 of the Criminal Justice Act 1991, 85-86*, o'r wefan

achosion sydd i gael eu hailystyried, mae perygl y gallai hyn waethygu'r sefyllfa anfanteisiol bresennol yn achos rhai o grwpiau ethnig heb fod yn wyn. Er ein bod yn disgwyl mai nifer fach iawn o garcharorion y bydd y drefn ailystyried yn effeithio arnynt (mewn ffordd dda neu negyddol), rydym yn cydnabod yn llawn y rhagfarn hiliol sy'n bodoli gyda chanlyniadau gwrandawiadau parôl. Cefnogwn yr holl fesurau y mae'r Bwrdd Parôl yn eu cymryd i gywiro'r sefyllfa, fydd yn berthnasol i bob agwedd ar y broses barôl a gwrandawiadau parôl, gan gynnwys gwrandawiadau ailystyried. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan grŵp cynghori ar gydraddoldeb ac amrywiaeth y Bwrdd Parôl. Fel Cadeirydd newydd y Bwrdd Parôl, meddai Caroline Corby, "Mae gan y Bwrdd Parôl 240 o aelodau a dim ond 11 o gefndir BAME. Er mwyn sicrhau bod gan garcharorion a'r cyhoedd hyder ynom, blaenoriaeth bwysig i'r Bwrdd fydd mynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth ethnig cymharol ymhlith aelodau'r Bwrdd Parôl ar gyfer yr ymgyrch recriwtio nesaf yn 2019."[9] Cefnogwn ymhellach unrhyw gamau gan y Bwrdd Parôl i sicrhau bod yr aelodau'n derbyn digon o hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb neu ymchwil i benderfyniadau'r Bwrdd Parôl o bersbectif cydraddoldeb.

93. Bwriad ac effaith y drefn ailystyried fydd gwella mynediad dioddefwyr a charcharorion at gyfiawnder fel bod modd adolygu'n haws y penderfyniadau sy'n berthnasol iddynt. Credwn felly bod unrhyw anfantais benodol i bobl gyda nodweddion gwarchodedig o ganlyniad i'r drefn ailystyried newydd yn ffordd gymesur o gyflawni'r amcanion cyfreithlon hyn.

### *Preifatrwydd*

94. Soniodd ymatebwyr am effeithiau anfanteisiol posib eraill y drefn ailystyried yn ymwneud â phreifatrwydd yr unigolyn, risg bersonol a phryderon am adsefydlu. Ni fwriadwn i wrandawiadau ailystyried fod yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol. Felly bydd gwrandawiadau ailystyried yr un fath â gwrandawiadau parôl eraill yn hyn o beth. Bydd y risg o ddatgelu gwybodaeth sensitif am garcharorion yr un fath ac yn cael ei thrin yr un mor ddifrifol. Ni fydd data personol a allai roi carcharorion mewn perygl yn cael ei ryddhau a bydd mesurau diogelu trylwyr yn cael eu mabwysiadu gan y Bwrdd Parôl i daro'r cydbwysedd iawn rhwng yr hawl sylfaenol i gyfiawnder agored ac ymyrryd yn gymesur â hawliau carcharorion o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

### *Gwahaniaethu ar sail anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol*

95. Bydd cynigion i gyhoeddi gwybodaeth am arferion y Bwrdd Parôl ar wefan GOV.UK, o dan y rheolau sy'n berthnasol i wefan GOV.UK, yn ystyried anabledd, problemau rhifedd a llythrennedd ac anawsterau cyfathrebu a dysgu.

96. Dylai cynigion yn codi o'r Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl fod o blaid dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal i'r carcharorion hynny gydag anghenion iechyd meddwl ac anawsterau dysgu. Un o'r darpariaethau o dan y cynigion hyn sydd i'w cynnwys yn Rheolau'r Bwrdd Parôl fydd pa weithdrefn i'w dilyn os na fydd gan garcharor y galluedd meddyliol i sicrhau gwrandawiad teg (er enghraifft drwy benodi

---

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/669094/statistics_on_race_and_the_criminal_justice_system_2016_v2.pdf

[9] https://www.gov.uk/government/news/caroline-corby-begins-as-permanent-parole-board-chair?utm_source=ed7be1e8-bf27-434e-bbb1-8721705ad626&utm_medium=email&utm_campaign=govuk-notifications&utm_content=immediate

cynrychiolydd addas ar eu cyfer). Byddai'r cynigion hyn yr un mor berthnasol i'r broses ailystyried ag i weddill y broses barôl. Cefnogwn ymhellach unrhyw gamau y bydd carchardai a'r Bwrdd Parôl yn eu cymryd i wella mynediad i rai gydag anableddau sy'n cymryd rhan yn y broses barôl.

### C8. A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir y gwahanol effeithiau o dan bob un o'r diwygiadau arfaethedig a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau.

97. Dim ond 29 ymateb a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn gyda 13 ohonynt yn codi'r mater o adnoddau. Roeddent yn pwysleisio bod angen ariannu unrhyw broses newydd yn iawn er mwyn lleihau'r risg o achosi oedi diangen. Y teimlad oedd y byddai'r cynigion yn creu galw ychwanegol a chostau ariannol newydd i'r Bwrdd Parôl; yr Ysgrifennydd Gwladol; carchardai a'r gwasanaeth prawf; a chymorth cyfreithiol i garcharorion. Byddai angen darparu'n foddhaol ar gyfer bob un o'r rhain.

98. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod y Bwrdd Parôl wedi gwneud camau breision iawn gyda lleihau nifer y gwrandawiadau llafar a dileu'r ôl-waith a oedd, tan yn ddiweddar, wedi bod yn achosi oedi sylweddol gyda rhestru a gwrando achosion. Lleisiwyd pryderon os na fyddai digon o adnoddau ar gyfer y drefn ailystyried, y gallai'r cynnydd hwn fod yn y fantol gan ddychwelyd at oedi ac ôl-waith.

99. Yn ogystal, tanlinellodd yr ymatebwyr nad oedd yr asesiad o effaith i gyd-fynd â'r ymgynghoriad yn cyfeirio at gostau oedi cyn rhyddhau carcharorion o gwbl. Yn eu dehongliad o'r ddogfen ymgynghori, byddai angen cadw pob carcharor dan glo'n hirach nag ar hyn o bryd er mwyn caniatáu amser ar gyfer ceisiadau i ailystyried. Byddai hyn yn achosi costau o ran llefydd mewn carchardai ac roedd angen ystyried effaith hyn.

100. Dyma rai sylwadau eraill a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Byddai unrhyw fesurau i ddatgelu enwau aelodau'r Bwrdd Parôl neu dystion gwrandawiad llafar yn risg, o ran eu diogelwch a siarad yn agored wrth roi tystiolaeth.
- Cododd nifer o'r ymatebwyr y cwestiwn o gymorth cyfreithiol i ddioddefwyr. Roeddent yn teimlo y byddai angen cyngor cyfreithiol arbenigol ar ddioddefwyr i wneud cais ac y dylai hyn fod drwy gymorth cyfreithiol.
- Risg i les carcharorion oherwydd yr ansicrwydd ynghylch a fyddai canlyniad gwrandawiad yn cael ei herio, a'r straen ychwanegol y byddai eu gwrandawiad llafar yn gyhoeddus.
- Gallai oedi cyn rhyddhau, o ganlyniad i gais i ailystyried, amharu ar drefniadau rhyddhau yn yr achosion mwyaf cymhleth. Gall y rhain gynnwys llawer o wahanol randdeiliaid yn aml a galw uchel iawn am welyau os oes gan y carcharor anghenion gofal penodol.

101. Roedd yr effeithiau da posib y soniwyd amdanynt gan yr ymatebwyr yn cynnwys proses fwy tryloyw ac arbedion cost posib o leihau nifer y penderfyniadau parôl sy'n cael eu herio yn y llysoedd.

### *Ymateb y Llywodraeth*

102. Rydym yn cydnabod ac yn cytuno â phryderon yr ymatebwyr bod angen darparu digon o adnoddau ar gyfer y drefn ailystyried er mwyn lleihau'r risg o greu oedi diangen. Credwn fod y model arfaethedig yn deg, realistig ac ymarferol i'w ddarparu. Drwy gyfyngu cymhwysedd ar gyfer y drefn ailystyried i achosion ISP ac EDS yn unig, byddwn yn canolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ar yr achosion mwyaf dadleuol.

103. Fel yr eglurwyd eisoes, bydd y meini prawf ar gyfer ailystyried yn gosod trothwy uchel ar gyfer ceisiadau a bydd angen i benderfyniad fod yn gyfreithiol wallus mewn rhyw ffordd i gyfiawnhau ei ailystyried. Bydd hyn yn golygu mai dim ond nifer fach o achosion sy'n debygol o gwrdd â'r trothwy a mynd drwy'r broses ailystyried. Ond rhaid i ni hefyd ystyried faint o geisiadau i ailystyried sy'n debygol o gael eu derbyn gan ddioddefwyr, a hefyd gan garcharorion. Bydd angen prosesu, ystyried ac ymateb yn ofalus i bob un ohonynt a bydd angen adnoddau i wneud hynny. Rhoddir peth gwybodaeth am ein dadansoddiad o effaith bosib ailystyried yn yr adran nesaf.

104. Nodwn y cynnig gan rai ymatebwyr y dylai fod gan ddioddefwyr hawl i gymorth cyfreithiol i'w helpu i wneud cais i ailystyried, ond daethom i'r casgliad na fyddai hyn yn cynnig y ffordd orau i ddioddefwyr o gael mynediad at y broses. O dan y model sydd mewn golwg, bydd dioddefwyr yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried gwneud cais i ailystyried. Y cwbl y bydd angen i ddioddefwyr ei wneud fydd amlinellu eu pryderon (mae'n debyg yn defnyddio templed syml i'w cynorthwyo i ganolbwyntio'r pryderon hynny gorau medrant i gwrdd â meini prawf tebyg i rai adolygiadau barnwrol) a mater i'r Ysgrifennydd Gwladol wedyn fydd paratoi'r ddadl fanwl ar sail y mynediad y bydd ganddo at yr holl wybodaeth a thystiolaeth fanwl am yr achos.

105. Rhan o'r rheswm dros gynnig y drefn ailystyried oedd fel na fydd angen i ddioddefwyr benodi cynrychiolydd cyfreithiol a dod ag achos costus a chymhleth o herio drwy'r llysoedd. Rydym eisiau i'r drefn fod mor hygyrch a didrafferth â phosib. Mae'r model sydd mewn golwg yn osgoi'r angen i ddioddefwr benodi cyfreithwyr oherwydd yr Ysgrifennydd Gwladol a fyddai'n darparu'r arbenigedd ac yn creu'r ddadl fanwl o blaid ailystyried os yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod achos i'w ddadlau bod y penderfyniad yn wallus.

# Effaith a gweithrediad

106. O ystyried y bydd y drefn yn un newydd sbon, bu'n rhaid i ni wneud rhai rhagdybiaethau am:

- Cyfran a nifer y penderfyniadau Bwrdd Parôl mewn achosion ISP ac EDS a allai arwain at ofyn am, neu gais i ailystyried;
- O'r rhain, mewn faint o achosion y byddai digon o dystiolaeth / seiliau dros wneud cais ffurfiol i'r Bwrdd Parôl i ailystyried;
- Faint o achosion a fyddai wedi eu cyflwyno i'r Bwrdd Parôl a allai arwain at aelod barnwrol yn penderfynu y dylid ailystyried yr achos;
- Nifer ac effaith y nifer fach o achosion a fyddai'n symud ymlaen at gael eu hailystyried gan banel Bwrdd Parôl newydd.

107. Mae costau'r drefn ailystyried wedi cael eu modelu, gan gynnwys yr amrywiol gostau a fydd yn disgyn ar y PPCS, y Bwrdd Parôl, costau cymorth cyfreithiol a chostau staff carchar a phrawf a fyddai'n rhan o baratoi gwrandawiadau llafar, a "gwely a bwyd" ar gyfer carcharorion a fyddai'n cael eu cadw dan glo ar ôl y dyddiad y byddent wedi cael eu rhyddhau o dan y broses bresennol.

108. Ar gyfer 2019/20, amcangyfrifwn y bydd tua 3,400 o benderfyniadau parôl yn gymwys i gael eu hailystyried. Ni chredwn fod nifer fawr o benderfyniadau parôl yn gyfreithiol neu'n weithdrefnol wallus ac felly disgwyliwn mai nifer fach o geisiadau a fydd. Drwy ddefnyddio tystiolaeth gan HMPPS a'r Bwrdd Parôl, amcangyfrifwn y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol geisio herio rhwng 1% a 5% o benderfyniadau rhyddhau ac y gallai carcharorion geisio herio rhwng 13% a 16% o benderfyniadau i'w cadw dan glo. Ni fydd pob cais i ailystyried yn symud at wrandawiad newydd ac amcangyfrifwn y bydd y drefn yn cynhyrchu rhwng tua 25 a 90 o wrandawiadau llafar ychwanegol bob blwyddyn. Mewn cymhariaeth, yn 2017/18 cwblhawyd tua 5,600 o wrandawiadau llafar ar draws gwahanol fathau o adolygiad.

109. Amcangyfrifir y bydd costau'r drefn ailystyried yn y flwyddyn gyntaf tua £1.3m a thua £1.2m y flwyddyn ar ôl hynny. O gofio'r nifer gymharol fach o garcharorion y byddai ailystyried yn berthnasol iddynt ar y tro, amcangyfrifwn mai bach iawn fydd yr effaith ar y boblogaeth garchardai.

110. Gweithredir y drefn ailystyried drwy gyfrwng darpariaethau newydd sydd i'w cynnwys yn Rheolau'r Bwrdd Parôl. Bydd hyn yn rhan o nifer o Reolau newydd a diwygiedig sydd mewn golwg yn dilyn ein hadolygiad ehangach o holl Reolau'r Bwrdd Parôl. Er mwyn diwygio'r Rheolau rhaid cael is-ddeddfwriaeth a bwriadwn roi Offeryn Statudol gerbron y Senedd yn y misoedd nesaf.

111. Cyn y gellir gweithredu'r drefn newydd, byddwn yn holi barn rhanddeiliaid, yn manwl-gyweirio sut y bydd y broses yn gweithio ac yn paratoi'r canllawiau, hyfforddiant a'r dogfennau angenrheidiol; a hefyd yn gwneud yn siŵr bod yr adnoddau angenrheidiol yn eu lle'n barod i lansio'r broses.

112. Mae'n gwbl greiddiol bod pawb y bydd y drefn yn effeithio arnynt yn ei deall. Byddwn yn talu sylw penodol i ddatblygu canllawiau clir ar gyfer dioddefwyr a swyddogion VLO. Bydd y deunydd hwn yn cyd-fynd â'r canllawiau Ymarfer Safonol newydd arfaethedig a'r Protocol Gweithredol newydd rhwng HMPPS a'r Bwrdd Parôl fydd yn cynnig mwy o dryloywder ac eglurder ar gyfer pob agwedd ar y broses barôl. Bydd y dogfennau hyn, yn ogystal â Fframwaith Polisi newydd ar y Broses Barôl Gyffredinol y bydd HMPPS yn ei gyhoeddi, hefyd yn cyfeirio at, a chefnogi'r gwaith o ddarparu'r drefn ailystyried ymhellach.

# Atodiad A – Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd

Yn ogystal ag unigolion preifat, derbyniwyd ymatebion gan:

Aanchai Women's Aid

Cymdeithas y Cyfreithwyr Carchardai

Y Farwnes Newlove, Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr

Bhatt Murphy Solicitors

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain

Carringtons Solicitors

Centre for Women's Justice

Dirprwy Faer Llundain ar gyfer plismona a throseddu

End Violence Against Women

False Allegations Support Organisation

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Howard League for Penal Reform

Kesar & Co Solicitors

KnifeCrimes.org

Lansbury Worthington Solicitors

Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu (MOPAC)

MIND

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Northumbria

Parenting Together

Pathways Psychological Services Limited

Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai

Gwasanaeth Cyngor i Garcharorion

Rape Crisis England & Wales

Preswylwyr yn HMP Coldingley

Rethink Mental Illness

Rights of Women

Cyngor y Bar

Cymdeithas y Gyfraith

Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr

Bwrdd Parôl Yr Alban

Comisiynydd Parôl Gogledd Iwerddon

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Avon a Somerset

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Durham a Cleveland

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Northamptonshire

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

CCS1218255870

ISBN: 978-1-5286-0952-4